

Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Y Felinheli a gynhaliwyd ar yr 14eg Mehefin, 2011, yn Y Neuadd Goffa, Y Felinheli
Minutes of the meeting of Felinheli Community Council held on 14th June, 2011 at Memorial Hall, Y Felinheli.

Yn Bresennol/Present: Ken R. Brown (Cadeirydd) Daniel Williams (Is-gadeirydd)
Lena Ashley; Ronald Gray; Gareth Griffith;
Sian Gwenllian; Iestyn Harris; Pat Jones; Gerald Roberts;
Pat White

1) Sylwadau Agoriadol/Opening Remarks:

Safodd y Cyngor am gyfnod o ddistawrwydd a chydymdeimlad â'r Cyng Pat White ar farwolaeth ei mham, Mrs Irene Burke. Hefyd ar farwolaeth o un o hynafwyr y pentref, Mr Vernon Bowles.

The Council stood for a period in silence and condolence with Cllr Pat White on the death of her mother, Mrs Irene Burke. Also on the death of one of the senior citizens of the village, Mr Vernon Bowles.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyflwr iechyd Mr Brian Ward. Mae Mr Ward erbyn hyn wedi dod adref o'r ysbyty a dymunodd y Cyngor gwellhad buan iddo.

The Chairman referred to the indisposition of Mr Brian Ward. Mr Ward has returned home from hospital and the Council wished him a speedy recovery to full health.

Ar nodyn hapusach, bu i'r Cadeirydd goesawu Cyng Pat White ar ol ei chyfnod yn yr ysbyty a dymunodd iddi ddychwelyd i lawn iechyd yn fuan.

On a happier note, the Chairman warmly welcomed the return of Cllr Pat White after her recent period in hospital and wished her well.

2) **Ymddiheuriadau/Apologies** Eluned Owen; Meirion Roscoe; George Smith;

3) **Datgan Diddordeb / Declaration of Interest** – Dim / None

4) **Cofnodion/Minutes:**

Derbyniwyd a chadarnhawyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol ar y 10fed Mai 2011 a hefyd Cofnodion Cyfarfod Misol o'r Cyngor ar 10 Mai 2011.

Minutes of the Annual Meetings held on 10th May were received and confirmed as a true record of the meeting. Also the Minutes of the regular meeting of the Council held on 10th May 2011.

Materion I'w Trafod/Matters for Discussion:

i) Gwefan Cymunedol –39099 ymweliadau yn ystod mis Mai.

Diweddaru'r Wefan – Cyng Meirion Roscoe wedi trefnu cyfarfod ond yn anffodus bu rhaid i Meic Roberts ei ganslo. Cyng. Meirion Roscoe i ail- drefnu cyfarfod.

Community Web Site – 39099 hits during the month of May
Up-dating the web site – Cllr Meirion Roscoe had arranged a meeting, but unfortunately, Mike Roberts (Delwedd) had to cancel. Cllr Meirion Roscoe to re-arrange a meeting.

ii) Man codi teithwyr / Pick up points for travellers.

Yn dilyn or cyfarfod diwethaf bu i'r Clerc gysylltu a chwmni teithio Arvonnia a chafwyd eglurhad am y newid gyda phwyslais bod y newid yma wedi digwydd tua 8/9 mlynedd yn ol a dim cwyn wedi ei dderbyn yn y cyfamser.

Following last month's meeting, the Clerk contacted Arvonnia Coaches and an explanation regarding the change was received, emphasising that the change had occurred about 8/9 years ago and no complaints had been received.

- 5) Problemau Parcio Stryd Bangor / Parking Problems on Bangor Street.
Cynghorydd Sir gyda Chynghorwyr Cymuned wedi cynnal cyfarfod gyda phreswylwyr rhwng Chan's a Dinorwic House, yn cynnwys tai dros y ffordd a'r garej. Cyflwynwyd Deiseb gyda 25 o enwau yn gofyn am drwyddedau parcio ar y rhan yma o'r Stryd. Wedi trafodaeth, y consensws oedd na fuasai trwyddedau parcio yn ateb y broblem achos mae mwy o dai yn yr ardal na sydd o lefydd parcio. Cafwyd trafodaeth a chynigiwyd syniadau i ddadansoddi'r broblem ac mae Siân Gwenllian, y Cynghorydd Sir yn edrych ar y sefyllfa eto. Mae'r Archeb yn caniatáu estyniad parcio ar ran o Stryd Bangor wedi ei selio ac mi fydd trafodaeth bellach gyda Swyddogion Gwynedd ynglŷn ag ymestyn yr amser rhwng Chans a Dinorwic House.
Neuadd yr Eglwys - opsiwn tymor hir a phenderfynwyd dylid y pwnc fod ar Agenda'r Cyngor Cymuned yn fisol.

The County Councillor accompanied by Community Councillors have met with residents of houses between Chan's and Dinorwic House, including houses on the opposite side of the road and the garage. A petition of 25 names was presented asking for parking permits on this part of the street. After discussion, the consensus was that parking permits would not work because there are more houses than there are parking spaces. Suggestions were proposed to resolve the problem and Siân Gwenllian, the County Councillor is to look at the matter again.

The Order permitting extended parking on that stretch of road opposite Cut Above is sanctioned and there will be further discussions with officers of Gwynedd Council regarding extending parking restrictions between Chan's and Dinorwic House.

Church House - long term option. Decided that the matter be on the Council's Monthly Agenda.

- 6) Adroddiad Pwyllgor Rheoli'r Neuadd / Hall Management Committee Report

Cyfarfod gyda Brian Ward ddim wedi ei gynnal oherwydd sefyllfa iechyd Brian. Awgrymwyd creu rota ar gyfer agor a chau'r Neuadd. Penderfyniad : gadael pob dim hyd nes bydd Mr Brian Ward mewn sefyllfa iechyd gwell.

Cyfrifon – wedi derbyn Datganiad Terfynnol gan yr Adeiladwr – penderfynnu trefnu cyfarfod gyda'r Pensaer. Awgrymu cyfarfod nos Fawrth 21 Mehefin os yw hynny yn gyfleus i'r Pensaer.

Owing to the indisposition of Brian Ward, a meeting has not as yet been arranged. Suggested that a rota for opening and closing the Hall be organised. Decided to leave things as they are for the present until Mr Brian Ward's health has improved.

Accounts – Final Statement received from the Contractor – decided to arrange a meeting with the Architect. Suggested that a meeting be held on Tuesday 21 June provided that the date was convenient to the Architect.

7) Cadarnhau Gwariant y mis blaenorol ac Adroddiad Ariannol/Confirm Payments for the Previous Month and Financial Report:

Cadarnhawyd dreflen o wariant y Cyngor am fis Mai.

Cyfrifon yn nwylaw yr Archwiliwr Mewnol.

Yswiriant – Cyfeiriodd y Clerc at y swm adnewyddu'r polisi gyda Zurich ac eglurodd ei fod wedi gofyn i Gwmni arall roi pris er mwyn sicrhau gwerth am arian.

PENDERFYNIAD; Cyng Daniel Williams i gymharu'r ddau bris a chynnwys y polisiau. Cyng Daniel Williams a'r Clerc i weithredu ar ran y Cyngor.

A summary of payments during the month of May was confirmed.

The accounts are now in the hands of the Internal Auditor.

Insurance – The Clerk referred to the renewal premium requested by Zurich and explained that he had obtained a quote from a different Insurance Company to ensure value for money.

DECIDED; Cllr Daniel Williams to compare the two policies. Cllr Daniel Williams and the Clerk given powers to act on behalf of the Council.

8) Gohebiaeth/Correspondence:

Derbyniwyd a nodwyd gohebiaeth ddaeth i law yn ystod y mis

Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council – Newidiadau i'r drefn ymgynghori gan Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Gwynedd / Changes to the consultation process by the Planning Department, Gwynedd Council.

PENDERFYNIAD - Gwrthwynebu'n gryf i'r drefn o lawr lwytho ceisiadau cynllunio i'r Cynghorau Cymuned. Nid oes gan Gynghorau Cymuned yr offer, y'r adnoddau na chwaith yr amser i weithredu system o'r fath. Yn groes i Gynghorwyr Sirol, nid pob Cynghorydd Cymuned sydd a meddiant cyfrifiadur. Mae Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol wedi gwrthwynebu'r hyn a fwriedir. GWEITHRED : Clerc i wrthwynebu drwy lythyr.

Cais am gymorth ariannol - Derbyniwyd cais oddi wrth aelod o grwp Guides Y Felinheli, sydd wedi ei dewis i gynrychioli Girlguiding Cymru ar daith ryngwladol i Malta. PENDERFYNIAD: Gwrthod y cais ar sail bod y Cyngor

eisioes wedi cefnogi un o'r pentref ar daith i Avellino fel cyfraniad eithriadol a chyda amodau. Cynigiwyd defnydd o'r Neuadd Goffa yn ddi-dal er mwyn unrhyw weithgaredd i godi arian tuag at y daith.

Correspondences received during the month were noted.

DECISION: Object strongly to the proposal to down load planning applications to Community Councils. Community Councils do not have the equipment, the resources or the time to operate such a system. Compared to County Councillors, not every Community Councillor has a computer. The Society of Local Council Clerks are opposed to the suggestion. **ACTION:** Clerk to object by letter.

Request for financial support – Request received from a member of Y Felinheli Guide Troupe who had been selected to represent Girlguiding Wales on an international journey to Malta

DECIDED: Refuse the application on the basis that the Council had already sponsored one from the village on a journey to Avellino, as an exceptional contribution and with conditions. The free use of the Memorial Hall to be offered to arrange any fund raising event towards the venture.

9) Adroddiad Is-Bwyllgor Cofeb y Cloc/Memorial Clock: -

Mr Dave White yn garedig wedi plannu blodau yn y tybiau oddi amgylch y Cloc. Nodwyd bod plac i goffau Scott Hughes wedi ei osod ar y Cloc. Gwlybanaeth – Cyng. Daniel Williams angen trafod gyda'r Pensaer.

Mr Dave White has kindly planted flowers in the tubs surrounding the Clock. Noted that a remembrance plaque for Scott Hughes has been placed on the Clock. Water Seepage Problem – Cllr Daniel Williams to discuss this matter with the Architect.

10) Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications:

Hotel Plas Dinorwic, Y Felinheli – Estyniad i greu 13 o ystafelloedd llety ychwanegol yn cynnwys newidiadau allanol. / Extension to create 13 additional guest rooms including external alterations. **GWRTHWYNEBIAD - Gor-ddatblygiad. OBJECTION – Over development.**

13 Terfyn Terrace, Y Felinheli – Adeiladu ffenestr gromen I flaen ty annedd / Construction of dormer window to front of dwellinghouse **DIM GWRTHWYNEBIAD / NO OBJECTION.**

1 Helen Terrace, Y Felinheli – Creu Porth car a theras/decio ar ei ben / create a car port with terrace/decking above it. - **DIM GWRTHWYNEBIAD / NO OBJECTION**

11) Adroddiad Is Bwyllgor y Fynwent/ Report of the Cemetery Sub-Committee

GWEITHRED: Yr eiddew yn y gornel ger y fainc angen tacluso.

Y fainc yng nghanol y fynwent angen ei chodi.
Bin yn gorlenwi angen ei gwagio.
Clerc i weithredu.

ACTION: The ivy at the corner requires clipping.
The bech in the centre of the cemetery needs to be raised.
Bin is overloaded requires emptying.
Clerc to action.

12) Adroddiad Is Bwyllgor Maes Parcio/Lon Las/ Report of the Car Park/Lon Las Sub Committee

Chwyn yn tyfu o amgylch y maes parcio – angen ei drin.

Lon Las - Chwyn yn barod yn tyfu drwy'r tar-mac newydd.

Weeds growing at the base of the boundary wall in the car park.

Lon Las - weeds were already growing through the tar-mac.

**13) Adroddiad Is Bwyllgor Llwybrau Cyhoeddus/Cysgodfannau/Meinciau
Report of Public Footpaths/Shelters/Benches Sub Committee**

Cysgodfannau – angen golchfa i gael gwared or tyfiant gwyrdd.
(Cyng Ken Brown i geisio pris.)

Bus Shelters – needs a good washing to get rid of the green growth.
(Cllr Ken Brown to obtain quote)

14) Adroddiad y Cynghorydd Sir/Report of County Councillor

1) PARCIO - Cynhaliwyd cyfarfod gyda trigolion a swyddog o Gyngor Gwynedd i drafod y syniad o drwyddedau parcio ar gyfer rhan o Stryd Bangor. Wedi trafodaeth, cytunwyd na fyddai modd gweithredu hyn yn deg gan fod gormod o dai a dim digon o lefydd parcio. Cytunwyd yn hytrach i ymestyn y cyfyngiad parcio o ½ awr i 2 awr a dim cyfyngiad ar y penwythnos, fel sy'n cael ei weithredu bellach gyferbyn â Cut Above.

2) BAW CŴN - mae arwyddion a ddylunwyd gan blant yr ysgol wedi eu gosod ar Lôn Las. Mae gan y cyhoedd hawl i ffonio'r Cyngor yn ddi-enw i roi gwybodaeth am berchnogion sydd ddim yn glanhau baw eu cŵn ac anogi'r chi i wneud: 01766 771000 (Mr Keith Williams sy'n gyfrifol am ardal Y Felinheli)

3) 11 FFORDD CAERNARFON - Cynhaliwyd cyfarfod efo trigolion lleol sy'n bryderus fod y bae parcio am gael eu gyfyngu'n fwy na'r hawl yn y caniatâd cynllunio. Mae'r Cynghorydd yn gohebu efo'r Adran Cynllunio â'r Cynulliad ynglyn â'r mater ar ran y trigolion.

4) Bydd bid llawn am grantiau am welliannau i wella'r pentre ymhellach yn cael ei gyflwyno i Môn - Menai mis nesaf. Manylion i ddilyn.

5) Codi arian i'r Urdd: mae'r ymdrech i godi £8mil yn Felinheli at Eisteddfod Eryri 2012 (Parc Glynllifon) yn mynd yn dda. Codwyd £1,200 yn y sêl a gynhaliwyd yn y Neuadd.

6) BYSIAU - yn sgil derbyn cwynion am or-yrru mae Cyngor Gwynedd wedi pasio ein pryderon i Arriva a Padarn bus. Mae amserlen i'w gosod ger arosfan yr ysgol.

7) Bydd Gŵyl y Felin yn cychwyn Mehefin 27 ac mae rhaglen lawn o weithgareddau eto. Anogaf bawb i gefnogi'r Pwyllgor gweithgar. Bydd y ffordd ar Lan y Môr ar gau fel arfer ar ddiwrnod y Carnifal.

8) Clirio Sbwriel - cynhaliwyd pnawn o glirio sbwriel ger yr afon yng Ngherrig yr Afon ac mae ieuenctid y Capel yn gobeithio cynnal sesiwn codi sbwriel yng nghefn Stryd Bangor.

9) Newid ar y ffordd ger Cartref Cerrig yr Afon - mae stribedi coch wedi eu gosod i arafu'r traffig ac arwyddion 40 m p h. fel rhan o'r cynllun gwella i'r Lon Las ond sydd wrth gwrs o fudd i'r pentref cyfan gan wella diogelwch yn enwedig i dai ar Ffordd Caernarfon.

10) Llongyfarchiadau i gwmni Readyfoods (Roberts of Portdinorwic gynt) am gael ei henwebu ar gyfer gwobr yn Wythnos Fusnes Gwynedd.

11) Ar ôl i mi gyfarfod efo Cartrefi Cymunedol Gwynedd, mae'r tir o gwmpas Rhyd y Fenai yn dechrau cael ei glirio.

1) PARKING - A meeting was held with residents and a Gwynedd Council officer to discuss the idea of residents' parking permits for part of Bangor Street. Following discussion, it was agreed that it would not be possible to implement this in a fair way as there are too many houses and too few parking spaces. It was agreed instead to extend the parking restriction of 30 mins to 2 hours and no restriction over the weekend, as is now in force opposite Cut Above.

2) DOG FOUL - signs that have been designed by the school children have now been placed on the cycle track, Lôn Las. Members of the public have a right to phone the Council without giving their names to provide information about dog owners who fail to clean up dog mess and you are encouraged to do so : 01766 771000 (Mr Keith Williams is responsible for the Y Felinheli area)

3) 11 CAERNARFON ROAD - A meeting was held with local residents who are concerned that the parking bay is to be made smaller than that permitted in the planning permission. I am corresponding with the Council and Assembly about the matter on behalf of the residents.

4) A bid for grant aid to make further improvements to the village in line with the Community Council's priorities will be submitted to Môn - Menai next month. Details to follow.

5) Raising money for the Urdd: the effort to raise £8,000 in Y Felinheli towards Eisteddfod Eryri 2012 (Parc Glynllifon) is going well. £1,200 was raised in the jumble sale held in the Hall.

6) Buses - following the concerns that have been raised about speeding in the village, Gwynedd Council have passed these on to Arriva and Padarn. A timetable is to be erected near the school bus stop.

7) Gŵyl y Felin kicks off on June 27 with a full programme of events again this year. I appeal to you to support the busy Committee. Beach Road will be closed as usual on Carnival Day.

8) Rubbish collection - an afternoon of rubbish clearing was held near the stream at Cerrig yr Afon and the Chapel youth group hopes to clear rubbish at the back of Stryd Bangor.

9) Change to traffic regulations near the Cerrig yr Afon home - red stripes have been placed on the road to slow down the traffic and 40 m p h signs put up as part of the cycle track improvement scheme. This will be beneficial to the whole village and will improve road safety especially for the houses on Ffordd Caernarfon.

10) Congratulation to Readyfoods (formerly Roberts of Portdinorwic) for being nominated for an award during Gwynedd Business Week.

11) Following a meeting with Cartrefi Cymunedol Gwynedd, the land around Rhyd y Fenai has started to be cleared.

15) Unrhyw Fater Arall / Any Other Matter

Cyflog y Clerc - yn absenoldeb y Clerc.

PENDERFYNIAD: Estyn graddfa'r Clerc.

Clerk's salary – in the Clerk's absence.

DECISION: Increase Clerk's scale.

Dim materion eraill i'w trafod a daeth y cyfarfod i ben am 9.10..

No other matters to discuss and the meeting finished at 9.10.p.m.

CYFRINACHOL / CONFIDENTIAL

COFNODION ATODOLO'R CYFARFOD 14 MEHEFIN, 2011
SUPPLEMENTARY MINUTES OF THE MEETING OF 14TH JUNE 2011

Cyflog y Clerc / Clerk's salary

Yn absenoldeb y Clerc penderfynwyd estyn graddfa'r Clerc i bwynt 22 SCP sef £10.20 yn awr wedi ei ol-ddyddio i mis Ebrill 2011.

Pwnc 'Cyflog y Clerc' i'w gynnwys ar Agenda'r Cyngor ym mis Mawrth yn flynyddol.

In the absence of the Clerk it was decided to increase the Clerk's salary scale to point SCP22, i.e. £10.20 per hour back-dated to April 2011.

'Clerk's Salary' to be included on the Council's Agenda annually in March.

Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Y Felinheli a ohirwyd or 8fed Chwefror hyd at Chwefror 15 yng Nghapel Bethania, Y Felinheli.

Minutes of the adjourned meeting of Y Felinheli Community Council from the 8th to the 15th February at Bethania Chapel, Y Felinheli.

Presennol / Present: Ken Brown (Cadeirydd/Chairman)
Daniel Williams (is-gadeirydd / Vice Chairman)
Cynghorwyr/Councillors Lena Ashley; Sian Gwenllian; Iestyn Harris;
Pat Jones; Gerald Roberts; George Smith;
Pat White.

Ymddiheuriadau / Apologies Cllr Eluned Owen

1) yn dilyn eitem 7 ar Agenda cyfarfod o'r Cyngor ar yr 8fed Chwefror pan benderfynwyd gohirio'r eitem am wythnos i'w trafod ar y 15fed Chwefror.

Following item 7 on the Agenda for the meeting of the Council on 8th February when it was decided to adjourn the item for one week to be discussed on 15th February.

Ystyried Ceisiadau am gymorth ariannol / Consider requests for financial assistance

Sylwadau Arweiniol / Opening Remarks

Eglurwyd bod llawer cais wedi ei dderbyn oddiwrth amrywiaeth o wasanaethau a chymdeithasau oddimewn a thu allan i gylch lleol Y Felinheli.

Explained that many applications had been received from organisations and services both within and outside the locality of Y Felinheli.

PENDERFYNWYD – Ystyried ceisiadau oddimewn cylch lleol Y Felinheli yn union fel mae'r polisi wedi bod yn y gorffennol.

DECIDED – Consider applications within the locality of Y Felinheli in accordance with past policy.

Wedi trafod pob cais yn unigol penderfynwyd rhannu arian fel a ganlyn:

After considering each single application it was decided to share the money as follows:

- £200 - Y Goriad - tuag at gostau argraffu.
- £150 - Clwb y Felin (Henoed) tuag at gostau'r Clwb
- £500 - Gwyl y Felin tuag at gynnal yr Ŵyl
- £400 - Cyfeillion yr Ysgol tuag at brosiect o osod cysgodfa ar gyfer yr adran iau.
- £200 - Cylch Meithrin Y Felinheli tuag at adnoddau newydd i'r Cylch
- £400 - Clwb Peldroed Y Felinheli tuag at wariant ar y cantin a'r ystorfa
- £ 50 - Felinheli Rainbows tuag at gemau ac offer ar gyfer genethod 5 – 7 oed
- £100 - 3rd Portdinorwic Guides tuag at offer ar gyfer coginio a thent newydd
- £100 - Brownies tuag at brynu nwyddau, offer a rhentu caban yn y Felin Fach
- £500 - Clwb Pêl-droed Ieuenctid i brynu offer y ogystal â chostau llogi neuaddau ar gyfer ymarferion
- £150 - Pwyllgor Regatta tuag at cynnal y Regatta yn 2011

Yn ogystal a'r uchod mae'r Cyngor yn ol eu Rheolau Sefydlog yn rhoi £500 yn flynyddol i Eglwys Santes Fair Llanfairisgaer ar gyfer cynnal a chadw Mynwent yr Eglwys.

In addition to the above, the Council, in accordance with their Standing Orders, donate the sum of £500 to St Mary's Church, Llanfairisgaer towards the repair and maintenance of the Church cemetery.

Cae Aml Bwrpas - Mae'r Cyngor wedi ystyried ceisio grantiau ar gyfer lleoli cae aml bwrpas yn ardal Pennington's, Lon Las fydd yn fantais ac yn adnodd gwerthfawr i'r pentref. Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i fwrw mlaen gyda'r prosiect ond naturiol yn cefnogi'r prosiect.

Derbyniwyd cais oddiwrth Mr Emyr Roberts, Cadeirydd Clwb Pêl-droed Y Felinheli yn amlinellu eu gobaith gyda'r prosiect. Mae cais cynllunio eisioes wedi ei ganiatau ac mae angen arian i gychwyn y brosiect. Bydd grant o £1000 yn gyfateb i amcan bris cwmni Wakemans ar gyfer prisio'r prif waith ac

mae Cyngor Gwynedd a Chynllun Môn a Menai wedi ymateb yn bositif iawn hyd yma i ariannu'r prosiect. Y cam cyntaf fydd gwaith prisio'r ac fe fyddai cael arian ar gyfer y gwaith hwnnw yn help mawr I annog y brosiect yn ei flaen.

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd yn unfrydol cyfrannu swm o £1000 er mwyn cychwyn y gwaith prisio ac er mwyn i'r prosiect cyffrous newydd yma gael ei wireddu.

Multi-purpose all weather pitch - The Council have considered applying for grants to establish a multi-purpose allweather playing area in the Pennington Area that would prove to be a worthwhile benefit to the village. At present, the Community Council are unable to proceed with the project but obviously support he project.

An application had been received from Mr Emyr Roberts, Chairman of the Felinheli Football Club, outlining their hopes for the project. Planning application has already been granted, but money is needed to start the project. A grant of £1000 would meet

the estimate from Wakeman's for pricing the main works and Gwynedd Council and the Mon Menai Plan have responded positively so far to finance the project. The first step is to have the major works costed and to receive a grant towards that work will be of great assistance to promote the project.

Following a discussion, it was unanimously agreed that the sum £1000 be donated by way of a grant to commence the costing work and for this new exciting project to materialise.

Cadeirydd / Chairman

8fed Mawrth 2011
8th March 2011